# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 2

CWRICWLWM MEWN YSGOLION A GYNHELIR, YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR AC ADDYSG FEITHRIN A GYLLIDIR OND NAS CYNHELIR

## PENNOD 1

CYNLLUNIO A MABWYSIADU CWRICWLWM

*Cyffredinol*

### 9 Cyflwyniad a dehongli

(1) Mae'r Bennod hon yn gwneud darpariaeth ynghylch cynllunio a mabwysiadu cwricwlwm i unrhyw un o'r canlynol—

(a) disgyblion cofrestredig mewn ysgol a gynhelir, ac eithrio'r rheini dros yr oedran ysgol gorfodol;

(b) disgyblion cofrestredig mewn ysgol feithrin a gynhelir;

(c) plant y darperir addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir ar eu cyfer.

(2) Mae cyfeiriadau yn y Bennod hon at ysgol yn gyfeiriadau—

(a) at ysgol a gynhelir, neu

(b) at ysgol feithrin a gynhelir.

(3) Yn y Bennod hon—

(a) mae cyfeiriadau at ddisgyblion, mewn perthynas ag ysgol, yn gyfeiriadau at ddisgyblion cofrestredig yn yr ysgol, ac eithrio'r rheini dros yr oedran ysgol gorfodol;

(b) mae cyfeiriadau at blant, mewn perthynas ag addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir, yn gyfeiriadau at blant y darperir yr addysg honno ar eu cyfer;

(c) mae cyfeiriadau at y cwricwlwm mabwysiedig, mewn perthynas ag ysgol, yn gyfeiriadau at y cwricwlwm a fabwysiedir o dan adran 11 gan bennaeth a chorff llywodraethu'r ysgol (ac os caiff y cwricwlwm hwnnw ei ddiwygio o dan adran 12, at y cwricwlwm fel y'i diwygir);

(d) mae cyfeiriadau at y cwricwlwm mabwysiedig, mewn perthynas ag addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir, yn gyfeiriadau at y cwricwlwm a fabwysiedir o dan adran 15 gan ddarparwr yr addysg (ac os caiff y cwricwlwm hwnnw ei ddiwygio o dan adran 16, at y cwricwlwm fel y'i diwygir).

*Ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir*

## 10 Cynllunio cwricwlwm

(1) Rhaid i bennaeth ysgol gynllunio cwricwlwm i ddisgyblion yr ysgol.

(2) Rhaid i'r cwricwlwm hwnnw gydymffurfio â'r gofynion yn adrannau 20 i 24, ac unrhyw ofyniad a osodir o dan adran 25.

## 11 Mabwysiadu cwricwlwm

(1) Rhaid i bennaeth a chorff llywodraethu ysgol—

(a) mabwysiadu'r cwricwlwm a gynllunnir o dan adran 10 fel y cwricwlwm i ddisgyblion yr ysgol, a

(b) cyhoeddi crynodeb o'r cwricwlwm mabwysiedig.

(2) Ond ni chaniateir mabwysiadu cwricwlwm o dan yr adran hon oni bai ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion yn adrannau 20 i 24, ac unrhyw ofyniad a osodir o dan adran 25.

## 12 Adolygu a diwygio cwricwlwm

(1) Rhaid i bennaeth a chorff llywodraethu ysgol—

(a) cadw'r cwricwlwm mabwysiedig o dan adolygiad, a

(b) sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion yn adrannau 20 i 24, ac unrhyw ofyniad a osodir o dan adran 25.

(2) Wrth ystyried a yw'r cwricwlwm mabwysiedig yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(b), rhaid i'r pennaeth a'r corff llywodraethu roi sylw i wybodaeth sy'n deillio o unrhyw drefniadau asesu a weithredir ganddynt o dan reoliadau a wneir o dan adran 56.

(3) Rhaid i bennaeth a chorff llywodraethu ysgol ddiwygio'r cwricwlwm mabwysiedig os ydynt yn ystyried ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(b).

(4) Caiff pennaeth a chorff llywodraethu ysgol ddiwygio'r cwricwlwm mabwysiedig hefyd os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny ar unrhyw adeg.

(5) Os yw pennaeth a chorff llywodraethu ysgol yn diwygio'r cwricwlwm mabwysiedig, rhaid iddynt gyhoeddi crynodeb o'r cwricwlwm diwygiedig.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

*Addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir*

**13 Dyletswydd Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cwricwlwm**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cwricwlwm (y "cwricwlwm adran 13") y maent yn ystyried ei fod yn addas i blant y darperir addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir ar eu cyfer.

(2) Rhaid i'r cwricwlwm adran 13 gydymffurfio â'r gofynion yn adrannau 20 i 24, ac unrhyw ofyniad a osodir o dan adran 25.

**14 Adolygu a diwygio cwricwlwm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru—
(a) cadw'r cwricwlwm adran 13 o dan adolygiad, a
(b) sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio ag adrannau 20 i 24, ac unrhyw ofyniad a osodir o dan adran 25.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru ddiwygio'r cwricwlwm adran 13 os ydynt yn ystyried ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(b).

(3) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r cwricwlwm adran 13 hefyd os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny ar unrhyw adeg.

(4) Os yw Gweinidogion Cymru yn diwygio'r cwricwlwm adran 13, rhaid iddynt gyhoeddi'r cwricwlwm diwygiedig.

**15 Mabwysiadu cwricwlwm**

(1) Rhaid i ddarparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir—
(a) mabwysiadu cwricwlwm i blant y darperir yr addysg honno ar eu cyfer (boed y cwricwlwm adran 13 neu gwricwlwm arall y mae'r darparwr yn ystyried ei fod yn addas), a
(b) cyhoeddi crynodeb o'r cwricwlwm mabwysiedig.

(2) Ond ni chaniateir mabwysiadu cwricwlwm o dan yr adran hon oni bai ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion yn adrannau 20 i 24, ac unrhyw ofyniad a osodir o dan adran 25.

**16 Adolygu a diwygio cwricwlwm**

(1) Rhaid i ddarparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir—
(a) cadw'r cwricwlwm mabwysiedig o dan adolygiad, a
(b) sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio ag adrannau 20 i 24, ac unrhyw ofyniad a osodir o dan adran 25.

(2) Wrth ystyried a yw'r cwricwlwm mabwysiedig yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(b), rhaid i'r darparwr roi sylw i wybodaeth sy'n deillio o unrhyw drefniadau asesu a weithredir gan y darparwr o dan reoliadau a wneir o dan adran 56.

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(3) Rhaid i'r darparwr ddiwygio'r cwricwlwm mabwysiedig os yw'r darparwr yn ystyried ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(b).

(4) Caiff y darparwr ddiwygio'r cwricwlwm mabwysiedig hefyd os yw'r darparwr yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny ar unrhyw adeg.

(5) Os yw'r darparwr wedi mabwysiadu'r cwricwlwm adran 13, a bod Gweinidogion Cymru yn diwygio'r cwricwlwm hwnnw o dan adran 14, rhaid i'r darparwr ystyried a yw'n briodol diwygio'r cwricwlwm mabwysiedig o dan is-adran (4) er mwyn adlewyrchu'r diwygiadau a wnaed o dan adran 14.

(6) Os yw'r darparwr yn diwygio'r cwricwlwm mabwysiedig, rhaid i'r darparwr gyhoeddi crynodeb o'r cwricwlwm diwygiedig.

*Darpariaeth atodol*

### 17 Pŵer i wneud darpariaeth atodol ynghylch mabwysiadu a diwygio cwricwlwm

Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) camau sydd i'w cymryd cyn i gwricwlwm gael ei fabwysiadu o dan y Rhan hon (gan gynnwys darpariaeth ynghylch camau sydd i'w cymryd er mwyn penderfynu a yw cwricwlwm arfaethedig yn addas ar gyfer ei fabwysiadu);

(b) y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid mabwysiadu cwricwlwm o dan y Rhan hon;

(c) amgylchiadau ychwanegol y mae rhaid diwygio cwricwlwm mabwysiedig odanynt.

### 18 Pŵer i wneud darpariaeth atodol ynghylch crynodebau cwricwlwm

Caiff rheoliadau wneud darpariaeth—

(a) ynghylch gwybodaeth sydd i'w chynnwys mewn crynodeb o gwricwlwm mabwysiedig a gyhoeddir o dan y Rhan hon;

(b) ynghylch cyhoeddi crynodeb o gwricwlwm mabwysiedig (gan gynnwys darpariaeth ynghylch sut y mae rhaid ei gyhoeddi, a'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid ei gyhoeddi).